

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Modern Man, Bargod

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mai 2024

Dyddiad cyhoeddi: 14 Awst 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-505-5

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Modern Man, 22 Stryd Fawr, Bargod, CF81 8RA ar 14 Mai 81.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Modern Man yn ymrwymedig i gynnig profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol â staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb. Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol i ddeall risgiau, manteision, a chanlyniadau disgwylidig y driniaeth. Cadarnhaodd y bobl a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaeth.

Gwelsom fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol lle roedd pawb yn cael eu trin yn deg, a gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith. Fodd bynnag, roedd grisiau o'r stryd i'r adeilad, a hefyd i'r toiled i gleifion yn yr islawr, a oedd yn golygu ei bod hi'n anodd i gleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y clinig a'i ddefnyddio. Nid ystyriwyd bod y safle yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi gwybod i gleifion am y problemau o ran mynediad yn y wybodaeth am y clinig
- Sicrhau bod cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi a'i lofnodi cyn pob triniaeth
- Cynnal cofrestr ar wahân yn cofnodi pob achos o roi triniaethau laser a Goleuni Pwls Dwys (IPL).

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithredwr sy'n siarad Cymraeg ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cael triniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Ymateb yn gadarnhaol i adborth, gan gynnwys prynu cadeiriau eistedd i orwedd (knee break couches) i helpu cleifion â phroblemau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Modern Man yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd yr ardaloedd trin yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant laser ac IPL yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel, a bod y staff wedi cael hyfforddiant addas, ond roedd angen tystiolaeth bod gwiriadau diagnostig dyddiol yn cael eu cynnal.

Gwelsom arwyddion priodol y tu allan i'r ystafelloedd trin ac roedd cloeon ar y drysau er mwyn atal mynediad heb awdurdod pan oedd y peiriannau laser ac IPL yn cael eu defnyddio.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus ac yn broffesiynol, a dangosodd ddealltwriaeth dda o ran ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad perthnasol.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff Prawf Offer Cludadwy (PAT) cyfredol ei gynnal ar yr holl gyfarpar trydanol ar y safle.
- Rhoi system o wiriadau ar waith er mwyn sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn gyfredol.
- Cadw cofnodlyfrau o wiriadau diagnostig dyddiol o'r peiriannau laser ac IPL.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân ac mewn cyflwr da, ac roedd y cyfarpar wedi cael ei wasanaethu fel sy'n ofynnol
- Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ac roedd rheolau lleol ac asesiad risg cyfredol yn ymwneud ag IPL ar gael.
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan Modern Man dîm bach ond ymroddedig o staff, gydag arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Y perchennog/rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd, a oedd yn ymddangos yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom amrywiaeth dda o bolisiâu a gweithdrefnau, a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond nid oedd y staff wedi cydlofnodi'r fersiynau perthnasol diweddaraf.

Roedd y clinig yn monitro adborth gan gleifion yn barhaus, ac yn ymateb iddo. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal er mwyn adolygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r rheoliadau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi system o archwiliadau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a'r triniaethau a ddarperir
- Mae angen i'r staff gydlofnodi'r dogfennau polisi er mwyn cadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tystiolaeth o hyfforddiant a datblygiad personol parhaus y gweithredwyr laser ac IPL
- Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y clinig.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 15 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Staff glân iawn a barod eu cymwynas, sydd wir yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.”

“Mae'r amgylchedd clinigol yn lân iawn ac yn broffesiynol.”

“Lleoliad glân. Mae'r staff yn arbennig.”

Urddas a pharch

Gwelsom fod gan Modern Man ddwy ystafell drin, un wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod a'r llall yn yr islawr. Roedd sawl gris o'r stryd i'r adeilad, a hefyd i'r toiled i gleifion a oedd wedi'i leoli yn yr islawr, a oedd yn golygu ei bod hi'n anodd i gleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y clinig a'i ddefnyddio. Nid ystyriwyd bod y safle yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Nid oes unrhyw sôn am y problemau o ran mynediad yn nhaflenni gwybodaeth y clinig.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion, y datganiad o ddiben a'r wefan er mwyn rhoi gwybod i gleifion am y problemau o ran mynediad ar y safle.

Gwelsom fod yr ystafelloedd trin yn lân, yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd drws y gellid ei gloi ar bob ystafell lle y gallai'r cleifion newid yn breifat, ac roedd tywelion ar gael i'r cleifion eu defnyddio drwy gydol triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas. Dywedwyd wrthym hefyd fod y drysau'n cael eu cloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd y cleifion.

Roedd gan y clinig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant. Dywedwyd wrthym nad oedd

hebryngwyr yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ond y byddai'r clinig yn bodloni unrhyw gais i ddarparu hebryngwr.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafelloedd trin er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, ac yn teimlo bod y staff wedi gwrandao ar eu cwestiynau ac wedi eu hateb.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom ddarllen y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig ac roedd y rhain yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Gwnaethom nodi bod y canllaw i gleifion yn cynnwys manylion cynhwysfawr yn ymwneud â'r weithdrefn gwyno a thelerau ac amodau triniaeth, gyda'r rhestr prisiau wedi'i chyfeirio at wefan y clinig.

Gwelsom mai dim ond yn Saesneg yr oedd y wybodaeth i gleifion ar gael, ond cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gellir trefnu i gopïau gael eu cyfieithu i'r Gymraeg ar gais. Roedd gweithredwr laser sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynnal triniaethau neu roi cymorth yn ôl yr angen i gleifion sy'n siarad Cymraeg.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn neu wyneb yn wyneb fel bod modd i gleifion heb fynediad digidol drefnu apwyntiad. Nid oedd system trefnu apwyntiadau ar-lein.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Cyn dechrau unrhyw driniaeth, roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr lle y gofynnwyd iddynt roi eu hanes meddygol llawn. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig. Rhoddwyd cyngor ar driniaethau a thaflenni ôl-ofal hefyd.

Dywedwyd wrthym fod croen pob claf yn cael ei asesu a'i fod yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol. Roedd y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu cydsyniad ysgrifenedig ar ddechrau pob cwrs o driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y rhan fwyaf o'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi ar un cofnod triniaeth lle nad oedd cydsyniad parhaus wedi'i lofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad ei gofnodi a'i lofnodi cyn pob triniaeth.

Cytunodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaeth a'u risgiau a'u manteision. Cadarnhaodd pawb fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn i'r driniaeth gael ei chynnal, eu bod wedi cael prawf croen a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Cynllunio a darparu gofal

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da ac roedd nodiadau manwl am gleifion unigol ar gael. Roedd y cofnodion yn dangos y gofynnwyd i bob claf am unrhyw ddiweddariadau i'w hanes meddygol.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau IPL fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd cofrestr o'r fath yn bodoli am fod paramedrau triniaethau IPL yn cael eu cofnodi'n awtomataidd o fewn y peiriannau laser ac IPL. Fodd bynnag, cawsom drafferthion wrth groeswrio'r data hyn â nodiadau rhai o'r cleifion gan fod mynediad wedi'i gyfyngu i'r gweithredwyr unigol. Roedd gennym hefyd bryderon pe bai unrhyw nam ar y peiriannau, na fyddai modd adfer y wybodaeth hon.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr ar wahân yn cofnodi pob achos o roi triniaethau laser ac IPL, sy'n benodol i bob peiriant.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom ein sicrhau bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Dywedwyd wrthym fod pawb yn cael eu trin yn deg, a gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith a oedd wedi'i lofnodi gan y staff. Fel enghraifft o'r addasiadau rhesymol a oedd wedi'u gwneud ar gyfer cleifion â phroblemau symudedd, roedd y clinig wedi gosod cadeiriau eistedd i orwedd (knee-break) yr oedd modd eu haddasu'n llawn yn lle'r cadeiriau trin safonol yn ddiweddar.

Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu drwy gynnig apwyntiadau hwyrach er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw glaf yno ar yr un pryd â chlaf arall, gan sicrhau preifatrwydd y claf wrth gyrraedd a gadael. Gofynnwyd am ragenwau ac enwau dewisol ac roeddent yn cael eu defnyddio yn unol â gofynion y claf.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn rhoi adborth yn bersonol, ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy system cydsyniad electronig y clinig. Er bod modd rhoi adborth yn ddiennw ar-lein, gwelsom nad oedd unrhyw gyfleuster i gleifion roi adborth yn ddiennw yn bersonol. Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr

cofrestredig, a drefnodd i flwch awgrymiadau gael ei osod yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei fonitro a'i asesu yn barhaus a chadarnhaodd y byddai'r clinig yn ymateb ar unwaith i adolygiadau ar-lein. Nid oedd unrhyw themâu na thueddiadau cyffredin wedi'u nodi wrth ddadansoddi adborth gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod arolygiad o'r system drydanol, a gynhelir bob pum mlynedd, wedi cael ei gynnal yn 2021. Er bod profion offer cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ar y cyfarpar trydanol yn yr ystafelloedd trin, gwelsom nad oedd profion o'r fath wedi cael eu cynnal ar y rhan fwyaf o'r eitemau trydanol eraill.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion offer cludadwy (PAT) cyfredol yn cael eu cynnal ar bob darn o gyfarpar trydanol ar y safle a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a bod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei archwilio a'i wasanaethu ym mis Ionawr 2024. Er bod arwyddion priodol at yr allanfeydd tân, gwelsom fod uned silffoedd yn rhwystro un allanfa yn rhannol ac nad oedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos. Aethpwyd i'r afael â'n pryder ynglŷn â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis ond nad oeddent yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr diogelwch tân, a gwelsom fod gordyfiant o gwmpas yr allanfa yng nghefn yr adeilad a allai rwystro pobl rhag gadael yn hawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi yn y cofnodlyfr diogelwch tân
- Rheoli a chynnal a chadw yr allanfa dân gefn drwy gyfyngu ar rwystrau gan blanhigion a hwyluso'r broses o adael yr adeilad.

Gwelsom fod asesiad risg cynhwysfawr wedi cael ei gynnal gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ym mis Ebrill 2024 ac y byddai angen ei adolygu yn 2025.

Gwnaethom archwilio'r pecynnau cymorth cyntaf ym mhob ystafell drin a gwelsom fod dyddiad defnyddio sawl eitem wedi mynd heibio. Cafodd eitemau newydd eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio er mwyn sicrhau nad yw'r dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio a bod pob eitem yn gyfredol neu'n cael ei newid.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ystafelloedd trin yn lân ac yn daclus yr olwg ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd briodol fel bod modd eu glanhau'n effeithiol. Roedd contract addas ar waith i gasglu a gwaredu gwastraff clinigol. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â'r rheolwr cofrestredig ac, yn gyffredinol, roedden o'r farn eu bod yn briodol i ddiogelu'r cleifion rhag achosion o groes-heintio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi amserlen lanhau fanwl ar waith i ddangos bod y rhwymedigaethau o ran atal a rheoli heintiau yn cael eu bodloni.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith, ynghyd â pholisi cadw tŷ a gweithdrefn reoli sylweddau peryglus. Roedd y rhain yn cwmpasu trefniadau ar gyfer diheintio'r cyfarpar, y byrddau trin cleifion a'r arwynebeddau gwaith a rheoli damweiniau a achosir gan nodwydd.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r amod hwn.

Er bod y gwasanaeth yn caniatáu i blant ddod i'r safle, nid oedd yn caniatáu iddynt fynd i'r ystafelloedd trin. Os daw plant i'r safle, rhaid i gleifion ddarparu eu gofal plant eu hunain neu caiff y driniaeth ei gwrthod a gofynnir iddynt aildrefnu'r apwyntiad.

Gwnaethom edrych ar y polisi diogelu sydd ar waith a oedd yn nodi'r camau priodol i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y ddogfen yn cael ei diweddarau'n unol â Phrotocol Diogelu Cymru Gyfan. Roedd tystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriannau laser ac IPL yr un fath â'r rhai a oedd wedi'u cofrestru ag AGIC a bod y gwiriadau calibradu a gwasanaethu yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau diagnostig systemau dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n ddigidol ar y peiriant perthnasol, ond ni allai'r rheolwr cofrestredig gael gafael ar y rhain ar adeg yr arolygiad. Nid oedd cofnodlyfrau ar wahân yn cael eu cadw i ddangos bod y

gwiriadau hyn wedi cael eu cynnal a'u bod wedi dangos bod y cyfarpar yn gweithio'n gywir.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i gofnodi gwiriadau diagnostig dyddiol ar y peiriannau laser ac IPL er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n gywir cyn cynnal unrhyw driniaethau.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau laser ac IPL yn ddiogel wedi cael eu hadolygu yn ddiweddar.

Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac IPL ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol. Roedd y ddwy ddyfais yn cael diogelu rhag defnydd heb awdurdod drwy godau cyfrin a oedd ond yn hysbys i'r gweithredwyr.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r peiriannau laser ac IPL. Roedd y ddau weithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd gwybodaeth diweddaraf ac wedi cael hyfforddiant perthnasol ar beiriannau penodol.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gael ym mhob ystafell i'r cleifion a'r gweithredwyr. Gwelsom eu bod yn lân, mewn cyflwr da ac yn gyson â'r gofynion a nodwyd yn y rheolau lleol.

Roedd arwyddion priodol y tu allan i'r ystafelloedd trin i ddangos bod peiriant laser ac IPL yn yr ystafell.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a oedd yn cael eu darparu ac roeddent yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn y maes ymarfer hwn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn awyddus i barhau i ddatblygu'r hyn y mae'n ei ddysgu er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Roedd hyn yn amlwg o'r amrywiaeth o dystysgrifau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant a oedd wedi'u harddangos.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth a bod cofnodion digidol yn cael eu cadw ar system ddata'r clinig a ddiogelir gan gyfrinair. Roedd cofnodion papur hŷn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd ffeilio dan glo. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cyfnodau cadw data yn unol â'r canllawiau.

Roedd polisi diogelu data cyfredol ar waith yn y clinig. Roedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o hawliau'r cleifion o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Modern Man ac yn ei redeg, ynghyd â chydweithiwr hunangyflogedig. Mae'r rheolwr cofrestredig hefyd yn rhentu gweithleoedd ar wahân i weithwyr hunangyflogedig proffesiynol fel tatŵyddion a barbwyr.

Gwelsom amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd wedi cael eu hadolygu a'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd pob polisi wedi cael ei lofnodi gan yr aelodau perthnasol o'r staff i ddangos eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd rhai o'r polisiâu a oedd wedi'u hargraffu yn cynnwys rhif y fersiwn na dyddiadau cyhoeddi ac adolygu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod pob aelod perthnasol o'r staff yn llofnodi i gadarnhau ei fod wedi darllen a deall polisiâu perthnasol y practis er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phroses a chanllawiau'r clinig, a bod tystiolaeth yn cael ei darparu i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.
-
- Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu ac enw'r person sy'n gyfrifol am y polisi.

Nid oedd unrhyw systemau wedi'u dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y darparwr yn cynnal adolygiadau ac archwiliadau i werthuso ansawdd y gwasanaethau ac asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion priodol ar waith yn ymdrin â chwynion ysgrifenedig a chwynion llafar, a oedd yn cynnwys amserlenni ar gyfer cydnabod a datrys cwynion. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys manylion cyswllt pellach pe bai'r claf yn dymuno uwchgyfeirio unrhyw faterion.

Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben a'r Canllaw i Gleifion. Ar adeg yr arolygiad, dywedwyd wrthym nad oedd

unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u gwneud. Felly, ni allem asesu na gwirio'r broses dogfennu cwynion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cawsom gopïau o wiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser hunangyflogedig. Gan fod pob unigolyn sy'n gweithio ar y safle yn hunangyflogedig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio neu gyflogi mewn perthynas â chyflogeion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod uned silffoedd yn rhwystro un allanfa dân yn rhannol.	Gallai staff a chleifion gael eu hatal rhag gadael yr adeilad yn gyflym mewn argyfwng.	Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ar adeg yr arolygiad.	Cafodd y rhwystr ei symud.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Modern Man

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mai 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Modern Man

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mai 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion, y datganiad o ddiben a'r wefan er mwyn rhoi gwybod i gleifion am y problemau o ran mynediad ar y safle.	Rheoliad 6 a 7 - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r daflen i gleifion wedi cael ei diweddarau a'i hatodi, ac mae datblygwyr y wefan wedi cael cyfarwyddyd i ddiweddarau'r wefan.	Ashley Edwards	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad ei gofnodi a'i lofnodi cyn pob triniaeth.	Rheoliad 9(4)(e)	Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen gydsynio yn cael ei lofnodi cyn unrhyw driniaeth yn y dyfodol.	Ashley Edwards	Yn ddyddiol
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o	Rheoliadau 45 (2)	Mae peiriant IPL Skin Base yn cadw cofnod awtomatig bob tro y rhoddir triniaeth, ond rydym wedi creu	Ashley Edwards	Yn ddyddiol

roi triniaethau laser ac IPL, sy'n benodol i bob peiriant.		taflen gofnodi ddyddiol ar gyfer peiriant Flash Ink.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion offer cludadwy (PAT) cyfredol yn cael eu cynnal ar bob darn o gyfarpar trydanol ar y safle a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Rheoliad 26 (2)(a) a (4)(a)	Mae prawf PAT wedi cael ei gynnal ar bob dyfais ac mae tystiolaeth wedi'i hatodi.	Ashley Edwards	Wedi'i gwblhau - Archwiliad blynyddol
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi yn y cofnodlyfr diogelwch tân - Rheoli a chynnal a chadw yr allanfa dân gefn drwy gyfyngu ar rwystrau gan blanhigion a hwyluso'r broses o adael yr adeilad.	Rheoliad 26 (4)(d) Rheoliad 26 (2)(a) a (4)(b)	Dylai'r cofnodlyfrau diogelwch gael eu diweddarau a'u llofnodi gan bob aelod o'r staff. Dylid cynnal ymarferion yn fwy rheolaidd a'u cofnodi'n gywir. Mae'r planhigion sy'n rhwystro'r allanfa gefn wedi'u torri ac mae bellach yn hygyrch.	Ashley Edwards	Ymarferion tân bob tri mis. Torri planhigion yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod yr allanfa yn hygyrch.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio er mwyn sicrhau nad ydynt	Rheoliad 15(2)	Mae'r holl becynnau cymorth cyntaf wedi cael eu newid ac mae polisi ar waith lle y caiff pob pecyn cymorth	Ashley Edwards	Bob chwe mis.

yn mynd heibio eu dyddiadau dod i ben a bod pob eitem yn gyfredol neu'n cael eu newid.	Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981	cyntaf ei wirio bob chwe mis a'i newid neu ei adnewyddu.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi amserlen lanhau fanwl ar waith i ddangos bod y rhwymedigaethau o ran atal a rheoli heintiau yn cael eu bodloni.	Rheoliad 15(8)	Mae amserlen lanhau wedi'i hatodi.	Ashley Edwards	Yn ddyddiol
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i gofnodi gwiriadau diagnostig dyddiol ar y peiriannau laser ac IPL er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n gywir cyn cynnal unrhyw driniaethau.	Rheoliad 15(2)	Caiff y gwiriadau diagnostig eu hanfon yn ddigidol o beiriant IPL Skin Base i bencadlys Skin Base a fydd yn rhoi gwybod i ni os oes unrhyw namau. Fodd bynnag yn gyffredinol, caiff gwiriadau cyffredinol eu cynnal ar y ddau beiriant cyn hynny, ac rydym wedi cynnwys rhestr wirio'r gwiriad diagnostig yn y daflen gofnodi ddyddiol ar gyfer peiriant Flash Ink, sydd wedi'i hatodi.	Ashley Edwards	Yn ddyddiol
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: Bod pob aelod perthnasol o'r staff yn llofnodi i gadarnhau ei	Rheoliad 9	Caiff slip polisiâu a gweithdrefnau ei gadw yn y ffolder polisiâu erbyn hyn er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi eu darllen a'u llofnodi. Caiff hyn ei wirio bob blwyddyn er	Ashley Edwards	Wedi'i gwblhau - Archwiliad blynyddol

fod wedi darllen a deall polisiâu perthnasol y practis er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phroses a chanllawiau'r clinig - Rhoi tystiolaeth i AGIC ar ôl cwblhau - Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu ac enw'r person sy'n gyfrifol am y polisi.		mwyn sicrhau bod popeth yn gyfredol.		
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 19	Byddaf yn rhoi system ar waith lle y byddaf yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd. Caiff hyn ei fonitro bob pedair wythnos.	Ashley Edwards	Gwiriad bob pedair wythnos.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ashley Edwards

Teitl swydd: Perchennog

Dyddiad: 09/07/2024